

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 236

Pris £1

Mis Gorffennaf 2021



Ffilifest Digidol

Ffilifest Digidol – Mehefin 19

Eleni bu'r ŵyl Ffilifest yn achlysur digidol eto, dros amryw o blatfformau a chyfryngau cymdeithasol. Trefnwyd fideos a sesiynau byw fel rhan o'r ŵyl, i geisio dal blas o'r hyn fyddai wedi bod o fewn muriau'r castell.



Roedd y gwaith i gyd wedi'i drefnu o flaen llaw, i greu cynnwys, o drefnu ysgolion i gymryd rhan yn y dawnsio gwerin, i drefnu pobl leol i gael perfformiad theatr ar stepen eu drws. Recordiwyd y prif eitemau dros dridiau gyda'r cwmni cynhyrchu lleol Beastly Media; buom yn ffodus yn ystod y deuddydd gyntaf gyda thywydd braf, ond bu'r diwrnod olaf o ffilmio yn wlyb iawn. Bu rhaid torri'r nifer o ymweliadau tai gyda'r perfformiad stepen ddrws am fod y perfformwyr, a'r criw, yn wlyb drwyddyn. Yn anffodus dyna'r peryg gyda pherfformiadau tu allan yng Nghymru! Er hyn, cafwyd

digon i greu ffilm a dangos naws yr hyn roedden wedi'i fwriadu.

Roedd ambell weithgaredd cyn y diwrnod hefyd, sesiwn sgwrs ar y cyd gyda Choleg Gwent, cyfweiliad dros Zoom gyda'r gantores Non Parry o Eden, gweithgaredd canu i fabis o dan 3 gyda Halibalw a thwrnamaint gem fideo 'Rocket League' ar y cyd ag EsportsWales. Diolch i bawb fu'n rhan o lwyddiant y digwyddiad.

Mae'r holl gynnwys Ffilifest digidol, gan gynnwys Bronwen



Lewis yn canu, cyfweiliad

gyda'r gomediwraig leol Priya Hall a nifer o fideos wedi'u creu ar dudalen Ffilifest ar wefan Menter Caerffili neu ewch yn syth i ffilifest2021.wordpress.com.



Menter yn mentro mas! Dyma lun o'r daith gerdded o amgylch Parc Penalltau Mae ambell weithgaredd Menter Caerffili yn dechrau cwrdd wyneb yn wyneb eto, gan ddilyn canllawiau'r llywodraeth, croeso mawr i bawb. Cysylltwch i dderbyn manylion pellach; bethanjones@mentercaerffili.cymru.



Priodas Trystan a Ciara



Ar ddiwrnod braf o Wanwyn, yn ystod y cyfnod clo, dathlwyd priodas yn Eglwys y Drindod Sanctaidd (Holy Trinity Church), Ystrad Mynach. Fe briododd Trystan, mab Arthur a Gaynor Williams o Hengoed, a Ciara, merch Len a Christine Downes o Gasnewydd.

Siobhan Downes, chwaer y briodasferch, oedd y forwyn briodas, a Carl Williams a Craig Spanswick, ffrindiau Trystan, oedd ei weision priodas. Er bod cyfyngiadau niferoedd oherwydd y cyfnod ansicr, ar ôl dilyn y rheolau, roedd yr Eglwys yn llawn o ffrindiau a pherthnasau'r pâr ifanc.

Bu'n bosib i weddill y teulu a ffrindiau ymuno trwy wyllo fideo byw o'r seremoni o'r Eglwys. Fe wylodd Dylan, brawd Trystan, Libby ei wraig a'u plantos, o Brunei, lle maent yn byw ar hyn o bryd. Dilynwyd y digwyddiad hefyd gan deulu Ciara yn Iwerddon, a theulu a ffrindiau'r ddau drwy Gymru, Bwlgaria a Ffrainc, Awstralia a Lloegr. Diolch byth am y teclynau technegol yma a wnaeth hi'n bosib teimlo cymaint o agosrwydd ar adeg anodd.

Arweiniwyd y gwasanaeth yn hwylus a pharchus gan Y Tad Steven Kirk. Ffrindiau teuluol oedd yr organydd Stephen Berry a Sally Davies, a'i merch, Naomi, a roddodd ddatganiad lleisiol hyfryd yn ystod arwyddo'r

gofrestr.

Cyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yw Trystan, sydd yn gweithio fel Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Ysgol Plasmawr, Caerdydd. Fe fynychodd Ciara Ysgol Uwchradd Caerllion. Mae ei swydd, sef gwerthu offer meddygol i ysbytai, yn caniatáu iddi deithio ledled Prydain ond yn bennaf ar draws De Cymru a De-orllewin Lloegr. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghwm Calon gyda Gruff y Labrador ifanc a ddaeth am orig fach tu fas i'r Eglwys fel rhan o'r dathlu ac er mwyn cael llun neu ddau gyda Trystan, Ciara a'u gwesteion. Mae Gruff yn gi therapi yn Ysgol Plasmawr. Fe fu haul ar fryn ym mhob ffordd drwy'r dydd.

Hen Gerddi'n Hardal

Pan fyddaf i'n priodi
Bydd Llundain yn Llanelli
Mountain Ash yng Ngelli-ga'r
Ac Aberdâr yn 'Fenni;
Bydd Castellnewydd Emlyn
Yn ymyl Pwll y Dyffryn,
A Phontypridd yng Nghrymlyn.

Mae hanes Siân Cwmbargod
Yn llawn o bethau hynod,
Bu fyw nes oedd yn gant a saith
A phedair gwaith yn briod.

Bu iddi ddeuddeg bachgen
A phedair merch benfelen,
Ond gwelodd ddodi oll o'i thras
O dan y las dywarchen

Dou wy a bara llechwan,
A lla'th yn llawn o 'ufan,
A brithyll braf o afon Nedd,
A fydd yn wledd it, Morgan.
A chwlf o gaws Caerffili
Rwy'n siŵr fai'n faethlon iti;
Ac os bwyti'r rhain i gyd,
Fe fyddi hyd at hollti.

Es i Fochriw i bregethu,
Cefais groeso fwy na mwy;
Sgadan cochion wedi'u pobi
Ges i ginio gyda hwy:
Dyna ginio
Rhyfedd bregethwr da

Dr Cathryn Charnell-White

Mae'n bleser gennym adrodd fod Llenyddiaeth Cymru wedi cyhoeddi mai Dr Cathryn-Charnell-White, Pennaeth Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth, yw Cadeirydd newydd y sefydliad. Roedd y cyn-Gadeirydd, yr academydd a'r bardd Kate North, wedi camu nôl ym mis Mai 2021 ar ôl gwasanaethu am y cyfnod penodedig.

Bydd darllenwyr "Cwmni" yn cofio Cathryn yn ddisgybl yn Ysgol Ifor Bach ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae'n ferch i Meic a Linda Charnell-White, Lôn y Llyn, ac yn chwaer i Nerys sy'n gweithio yn Ysgol Gymraeg Caerffili.

Mae Cathryn a Richard wedi setlo ym Mhenuwch ac mae Seth yn mwynhau mynychu'r ysgol fach leol. Mae Richard yn arddwr amgylcheddol ac yn gwneud pethau i'r aelwyd a'r ardd allan o bren lleol.



Meddai Cathryn, "O ran diddordebau, yn anffodus does gen i ddim amser i chwarae yn y cerddorfeydd lleol, ond rwy'n mwynhau garddio a thyfu llysiau, cerdded, a gwau. Dros y cyfnod clo rwy wedi bod yn gwneud ychydig bach o 'wau gerila' (guerrilla knitting) er mwyn diolch i weithwyr allweddol a dod â bach o liw i'r ardal..."

Cathryn yw Pennaeth Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth. Mae ei gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar hunaniaeth Gymreig, merched a barddoniaeth, a llenyddiaeth y tywydd yng Nghymru'r Cyfnod Modern Cynnar. Cathryn oedd Pencampwr Cydraddoleb ac Amrywiaeth yr Adran (2018–20) a bu'n eistedd ar y pwyllgor canolog ar gyfer cydraddoleb ac amrywiaeth.

Mae'n ymroddedig i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn gallu eu gweld eu hunain yn y cwricwlwm. Datblygodd fodiwl newydd, 'Testunau'r Enfys', gyda chydweithiwr yn yr Adran Theatr Ffilm a Theledu, a hwn yw'r modiwl LHDT+ cyntaf o'i fath mewn Adran Gymraeg. Bu'n aelod o Gyngor a Phwyllgor gwaith Cyngor Llyfrau

Cymru (2015–2021) ac mae'n aelod o Bwyllgor Gwaith Honno Gwasg Menywod Cymru (ers 2003). Mae'n gwasanaethu ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru ers Tachwedd 2019.

Meddai Cathryn ar wefan Llenyddiaeth Cymru, "Anrhydedd o'r mwyaf fydd cael cadeirio Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru ar drothwy degawd newydd yn ein hanes. Edrychaf ymlaen at gael arwain trafodaethau ar ein cynllun strategol newydd, ac yn benodol at gael gyrru prosiectau sy'n rhoi sylw i les a thangynrychiolaeth, ac at gydweithio'n agos â phartneriaid yn y sector i luniaru effeithiau COVID-19 ar ein diwylliant llenyddol."

Llongyfarchiadau, Cathryn!



Cwis Llyfrau Ysgol Gymraeg Caerffili



Dyma lun o gystadleuwyr brwd Blynyddoedd Ysgol 3-4 yr ysgol sy'n edrych ymlaen at gynrychioli Sir Caerffili yn rownd genedlaethol Darllen Dros Gymru 2021 Rydyn ni'n falch iawn ohonon nhw ac yn dymuno'n dda iddyn nhw .

Tipyn bach o hanes

Ann Lewis



Mae'n siwr i lawer ohonoch glywed stori am awyren *spitfire* a ddaeth i lawr ar fynydd Caerffili yn ystod yr Ail Ryfel Byd gan ladd y pilot, gŵr ifanc o lu awyr Canada. Ond wydddech chi fod cofeb ar y safle i goffáu'r digwyddiad?

Fel nifer fawr o bobl eraill, treuliais dipyn o amser yn cerdded yn ystod y cyfnodau cloi a darganfod llwybrau newydd, rhai ohonynt ar fynydd Caerffili. Roeddwn wedi sylwi ar wal a edrychai o bellter fel rhan o adfail hen fwthyn, yn agos i'r ffordd sy'n arwain heibio i Gapel Watford i ben y mynydd. Un dydd, penderfynais fynd i gael golwg agosach ar yr hen furddun a darganfod nad adfail mohono o gwbl ond cofeb i'r rhingyll Ivan Raymond Trafford a laddwyd pan ddaeth ei awyren i lawr yn yr union fan honno ar y

7fed o Dachwedd 1941. Roedd yn dod o Brunswick, Canada.


Mae'r gofeb yn un ddigon trawiadol fel y gwelwch o'r llun. Os am fynd i'w gweld, ewch heibio i Gapel Watford tua phen y mynydd a throi i'r lôn ar y chwith gyferbyn â'r tro i'r dde sy'n mynd i gyfeiriad y *Black Cock*. Gallwch barcio car yn union ar ôl troi i mewn. Ymhen ychydig lathenni mae llwybr troed yn mynd i lawr ar y chwith. Dilynwch y llwybr yma i lawr y rhiw nes iddo droi i'r dde. Mewn cae ar y chwith fe welwch wal o gerrig. Ewch i edrych yn fwy manwl ac fe welwch i chi ddod o hyd i gofeb y gŵr ifanc o Canada.



Cau Capel Brynseion

Mae haul cynnes bore braf o Fehefin yn gwenu ar Gapel Brynseion, ac yn pefrio oddi ar y brithwaith lliwgar a osodwyd ar dalcen y capel yn 2006 i nodi ei ganmlwyddiant. Ond er mor gadarn yw'r adeilad, ac mor dda yw ei olwg, mae'r haul yn machlud ar yr achos a sefydlwyd yno mewn dyddiau mor wahanol i'n rhai ni heddiw.

Codwyd Brynseion pan oedd pentref Ystrad Mynach ei hun yn cael ei adeiladu'n gyflym, wedi i'r gwaith o suddo pwll newydd Penallta ddechrau ym 1905. Dyma gyfnod y Diwygiad Mawr, ac roedd sylfaenwyr Brynseion, fel sefydlwyr achosion Moreia a Siloh, hefyd yng nghanol y pentref, yn disgwyl y byddai'r cyffro crefyddol yn parhau, a chynulleidfaoedd mawr yn dal i ddathlu newyddion da yr Efengyl mewn gwasanaethau angerddol fyddai'n denu cannoedd.



Brynseion, Ystrad Mynach

Dyna'r rheswm dros y darn eang o dir o flaen Brynseion: dyma le'r oedd capel mawr newydd i fod i gael ei godi, i gwrdd â'r galw disgwyledig. Ond nid felly y bu. Daeth y Rhyfel Mawr, a'r Dirwasgiad ar ei ôl, a dadrithiad crefyddol y blynyddoedd canlynol. Roedd y cynulleidfaoedd yn dal yno, ond yn lleihau'n gyson. Dyna fu'r hanes ledled Ewrop, a'r un yw'r hanes yma yng Nghymru hefyd.

Roedd penderfyniad cynifer o rieni'r capeli Cymraeg i beidio â throsglwyddo'r iaith i'w plant yn rhwystr ychwanegol. Saesneg oedd iaith y sgysiau wedi'r cwrdd – iaith y pulpud, y Beibl a'r llyfr emynau oedd y Gymraeg i lawer o'r aelodau. Rhyfedd gen i yw cofio fy mhlentynod yn Siloh, Ystrad Mynach – cynifer o'm cyfoedion yn dod i'r gwasanaethau, yn mynychu'r Ysgol Sul, ond yn methu siarad iaith y gwasanaethau.

Saesneg oedd iaith Brynseion hefyd yn y dyddiau diwethaf hyn, er bod yr emynau yn Gymraeg a bu Mrs Eirlys Thomas a Ms Mair Roberts yn cynnal Ysgol Sul ffyniannus ym Mrynseion ers blynyddoedd. Bu cysylltiadau agos rhwng Brynseion ac Ysgol Bro Allta hefyd, a hynny ers cychwyn yr ysgol honno. Melys yw cofio'r gwasanaethau Nadolig yn y capel, pan fyddai ei blant yn dod adre, ac yn cymryd eu rhan fel oedolion yn nefodau'r Wyl.

Ond er mor wych yw llwyddiant addysg Gymraeg yn ein cwm ni, prin yw disgyblion na'u hathrawon sy'n mynychu'r oedfaon Cymraeg. Mae aelodau pob capel ac eglwys yn heneiddio, a'r baich ariannol yn pwysu'n drymach bob dydd ar y ffyddloniaid.



Yr Hen Dŷ Cwrdd

Cymdeithas seciwlar sydd ohoni heddiw, ganrif a rhagor ers agor drysau Brynseion. Bydd y drysau hynny yn cau ar bentref o siopau trin gwallt, siopau tatŵ a siopau sglodion. Mae'r glaswellt yn tyfu o gwmpas y llwybr sy'n arwain at ddrws y capel, a'r tafarndai a'r siopau bwyd parod dan eu sang.

Haul y machlud sy'n euro'r Hen Dŷ Cwrdd yn Hengoed, mam eglwys Brynseion. Mae plac ar ganol y wal yno i gofio'r diwygiwr a'r arloeswr Morgan John Rhys, un o aelodau enwocaf y capel, ond roedd yr achos yn Hengoed yn hen yn ei ddyddiau ef. Mae'r plac uchaf yn nodi adeiladu'r capel cyntaf yn Hengoed ym 1710, a'i ail-adeiladu ym 1829 – ond mae gwreiddiau'r achos i'w holrhain yn ôl i'r Bedyddwyr cynnar hynny oedd yn addoli yn y dirgel yn yr ardal hon yn yr ail ganrif ar bymtheg.

Yn sicr fe welodd yr Hen Dŷ Cwrdd fwy o droeon amser na'i ferch ym Mrynseion, ac yn wir mae cynulleidfa ifanc yn addoli yno nawr. Tybed ai haul y wawr yw hi yn Hengoed, os yw hi'n machlud ym Mrynseion?

Emyn-dôn ar ei Newydd Wedd

Philip Lloyd

Roedd cystadleuaeth rhif 65 yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fflint a'r Cylch 2007 yn Yr Wyddgrug yn gofyn am 'Ffantasia' ar yr emyn-dôn *Groes-wen* o waith John Ambrose Lloyd, a anwyd yn y dref yn 1815. Mae ei donau wedi ymddangos yn llyfrau emynau'r enwadau i gyd, gyda phymtheg ohonyn nhw yn *Caneuon Ffydd*. Enw tref, pentref neu fro sydd ar y rhan fwyaf. Ymhlith y trefi mae 'Wyddgrug' (heb yr 'Yr', un union fel byddai'r nofelydd Daniel Owen yn ei sgrifennu), 'Abergele' a 'Cromer' (cyrchfan ymwelwyr ar lan ogleddol Swydd Norfolk). Un o'r pentrefi yw Groes-wen.

Saif Groes-wen (a'r capel o'r un enw) ar lethrau Mynydd Meio, ger Caerffili. Yn eisteddfod y capel yn 1845 enillodd Lloyd ei wobwr gyntaf am gyfansoddi. Cynigiodd emyn-dôn. Y beirniad oedd Rosser Beynon, Arweinydd y Gân yn Soar, Merthyr Tudful (hen gapel y Dr Joseph Parry a Chanolfan Gymraeg y dref heddiw). Yn 1848 cyhoeddodd Beynon ran gyntaf ei *Thelyn Seion* (casgliad o donau ac anthemau), yn cynnwys dwy o donau John Ambrose Lloyd: *Eifionydd* a chynnyrch eisteddfod 1845, dan yr enw *Groeswen*.

Mae i Gapel Groes-wen le arbennig yn hanes crefyddol Cymru. Codwyd yr adeilad gwreiddiol yn 1742, yn nyddiau cynnar y Methodistiaid Calfaidd, '*for a Society or Meeting House for and towards public worship ...*'. Yn Ionawr 1743 cynhaliwyd y 'Sasiwn' enwog honno pryd y perffeithiwyd eu trefniadaeth fel mudiad y tu mewn i'r eglwys wladol. Roedd cyfarfodydd y dydd yn y capel a'r rhai hwyrol tua thair milltir i ffwrdd yn ffermdy hynafol Watford Fawr. Ymhlith y sasiynwyr roedd y triwyr ifainc William Williams (Pantycelyn), Daniel Rowland a Hywel Harris.

Ddwyllydd yn ddiweddarach ymunodd cynulleidfya Groes-wen ag enwad yr Annibynwyr, am fod uchel-lysoedd y Calfiniaid wedi gwrthod eu cais 'i gael rhai i weinidogaethu'r gair a'r ordinhadau iddynt yn ei bryd ac i edrych drostynt fel bugail dros y praid'. Un o'r ddau gyd-weinidog cyntaf oedd William Edwards, a gododd ei bont enwog ar draws Afon Taf ym Mhontypridd yn 1756.

Enillydd Arall

Ond dychwelaf at Eisteddfod 2007. Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, aeth fy ngwraig a minnau i Gaerffili i aros gyda theulu. Darllenais mewn papur lleol fod Michael Charnell-White, organydd a chorfeistr Eglwys Martin Sant, Caerffili wedi bod yn fuddugol gyda'i ffantasia ar yr emyn-dôn *Groeswen* (ac am drefniant o alaw werin ar gyfer côr SSA).



Michael wrth organ Bethesda

Penderfynais fynd i'w weld, a chefais wybod ganddo ei fod yn frodor o Nottingham, yn byw yng Nghymru ers degau o flynyddoedd ac wedi dysgu Cymraeg.

Nid dyma'r tro cyntaf iddo ennill yn y Genedlaethol. Fe oedd y cyntaf i dderbyn Tlws y Cerddor, yn Eisteddfod Cwm Rhymni 1990. Oni bai am y coed ar draws y ffordd, byddai Capel Groes-wen i'w weld o'i lolf. 'A gawsoch chi eich ysbyrdoli gan y capel a'i hanes?' gofynnais iddo. 'Naddo', atebodd, 'dim ond gan y dôn ei hun'. Er mai gwaith diweddar oedd ei ffantasia, dywedodd ei fod yn gyfarwydd â'r dôn *Groeswen* ers tua deugain mlynedd, pan aeth gyda'i ddarpar-wraig (fel roedd hi ar y pryd) i'w chapel lleol yng Nghwmbwrla yn 1968.

Cofnodir yr hanes am John Ambrose Lloyd ac Eisteddfod Capel Groes-wen yn *Y Cydymaith i 'Caneuon Ffydd'*, ond fe'i clywais gyntaf gan fy nghyfaill Moi Parri, a fu'n dysgu yn Ysgol Gynradd Gymraeg Ifor Bach, Senghennydd (Abertridwr erbyn hyn). Mewn sgwrs gyda Mrs Charnell-White cefais wybod iddi hi a Moi fod yn gyd-athrawon yno.

Dychwelodd Michael Charnell-White gyda'i wraig i'r Wyddgrug ym mis Ionawr 2008 ar gyfer cyngerdd blynyddol Capel Bethesda i wrando ar berfformiad *première* ei ffantasia ar yr organ gan Christopher Enston, y beirniad a ddyfarnodd y wobwr iddo yn 2007. Ac ar ôl clywed bod yr organ dros gant oed ac yn waith y gwneuthurwyr enwog Wadsworth o Fanceinion, cafodd y pleser o'i chanu ar ôl y cyngerdd.

Rhif 72.

GROESWEN. (M. 8.7.3.).

J. AMBROSE LLOYD, 1815-1874



Problem y Deisen Lemwn

O le daeth y deisen lemwn sydd mor boblogaidd heddiw - y *lemon drizzle cake* - sef teisen sbwng, gyda



chrwstyn o siwgr a sudd lemwn drosti? Mae'n syml i'w gwneud, y cynhwysion yn ddigon hawdd eu cael, mae'n ffefryn gan bawb - ac eto, hyd y gwelaf i, mae'n deisen gymharol newydd.

Rwy wedi chwilio yn yr hen lyfrau ryseitiau sydd gen i yn y tŷ, a does dim sôn ynddynt am y math hwn o deisen cyn y 1970au. Mae gen i rysâit am "Lancashire Lemon Fingers" tebyg iawn iddi, wedi ei sgriblo ar gefn amlen o'r cyfnod pan oeddwn yn dysgu yn Rhydfelen (1976 - 1981), ond dim byd cyn hynny.

Roeddwn i'n darllen nofel yn ddiweddar wedi ei gosod yn y 1930au. Roedd yn amlwg i'r awdur ymchwilio'n ofalus i hanes y cyfnod, y gwisgoedd, yr arferion, y caneuon – y cefndir cymdeithasol i gyd - ac nid oedd ofn arni rannu ei gwybodaeth gyda'i darllenwyr. Yna, ynghanol disgrifiadau poenus o fanwl, ddaeth cyfeiriad at y deisen lemwn arbennig hon. Fel pob hanesydd sy'n darllen nofel hanesyddol, rwy ar bigau'r drain yn disgwyl am gamgymeriad ffeithiol. Mae'r cloc yn taro 13 wedyn, ac rwy'n colli pob diddordeb yn y llyfr!

Camp y nofelydd hanesyddol yw creu gorffennol credadwy. Rwy newydd gael blas ar ail-ddarllen nofelau Ellis Peters am y Brawd Cadfael, ac edmygu ei ffordd o roi digon o gefndir heb fanylu'n ormodol. Yn y manylion mae'r perygl! Nid yw Peters yn disgrifio unrhyw bryd o fwyd yn fanwl, ond mae'r hen frawd a'i ffrindiau yn aml yn cael eu gorfodi i swpera ar ddarn o fara a chaws, sy'n gredadwy ymhob cyfnod!

Ond beth bynnag am yr hanes, gadewch i ni wneud y deisen. Dyma'r rysâit gorau yn fy marn i :

Irwy a leiniwch dun 12" x 9", a gwresogwch y ffwrn i 180° C.

Rhowch y cynhwysion canlynol i gyd mewn un bowlen fawr a'u cymysgu gyda'i gilydd yn drwyadl am ryw ddwy funud:

8 owns o fargarîn meddal

8 owns o siwgr

10 owns o gan (blawd) hunangodi

2 lwy de o bowdwr pobi


4 wy

4 llond llwy fwrdd o laeth


Crofen dau lemwn, wedi eu crafu'n fân

Rhowch hwn yn y tun, a'r tun wedyn yn y ffwrn (180° C) am 30 – 40 munud.

Pan fydd y deisen yn barod, tynnwch hi allan o'r ffwrn, a chyn iddi oeri, taenwch drosti sudd y ddau lemwn wedi ei gymysgu gyda 6 owns o siwgr. Yna gadewch iddi oeri yn y tun cyn ei thorri - a'i mwynhau.



Portreadau Grŵp Dydd Gwener



Chwaraeon y Beirdd

Cytunaf yn llwyr â sylwadau Derec Llwyd Morgan dro yn ôl ar 'Dros Ginio' Radio Cymru. Wrth drafod ei gerdd 'Mynd i Brynu Torth', dywedodd fod chwaraeon (sef, ffwtbol a rygbi) yn rhan fyw o'n diwylliant. Bob mis mae'n dangos hynny yn ei golofn 'Chwaraeon' yn y cylchgrawn Barn. Mi fuaswn i ar goll heb fy Wolves a Bangor City; heb Billy Wright a Tommy Jones; a heb y 30ain o Ebrill 1949 a'r pumed o Fedi 1962. Darllenaf dudalennau chwaraeon y *Daily Telegraph* a'r *Western Mail* cyn gynted ac y caf afael arnynt yn y bore.

Ddydd Gwener yr 16eg o Ebrill eleni bu farw John Dawes, y chwaraewr rygbi adnabyddus. Ef yn frodor o Gwmcarn ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Lewis, Pengam. Yn y gyfrol 'Cerddi 71', golygydd James Nicholas, cyhoeddwyd 'Salm i Fois y Slam Fawr' Dic Jones, un deg chwech englyn i dîm rygbi Cymru a'u hyfforddwyr. Dyma'r englyn i John Dawes:

O'r pymtheg y strategydd; - rhy araf
Meddai'r rhywrai beunydd,
Er hynny fel arweinydd
Ni bu ei ail ac ni bydd.

Un o'm hoff chwaraewyr yn y tîm hwnnw oedd y glöwr o Rigos, Dai Morris, rhif 6 yn y tîm:

Ar y bêl waeth ble'r elo, - yn maesu,
Ymosod neu daclo
Y bwlch ble bynnag y bo,
Hwn fydd y cyntaf yno.

Yn y *Western Mail* ddechrau mis Mai roedd sôn bod Aaron Ramsey yn ystyried dychwelyd o'r Eidal i chwarae i Arsenal. Gobeithio yn wir, gan fod ei angen ar y tîm. Nid ef ydy'r unig bêl-droediwr o Gaerffili â chysylltiad ag Arsenal. Yn ddiweddar cyhoeddwyd 'John Owen ei Awen Ef', casgliad o englynion y Parchedig John Owen, Rhuthun. Un o'r englynion yn 'Adran y Chwaraeon' yn y gyfrol ydy'r un i Aaron Ramsey.

Aaron sydd ar ei ora' – yn rhedeg
a rhwydo pob cyfla;
A'i basio a'i daclo da
Yn euro drwy'r holl chwara.

Ym mis Ionawr 1922, ar ôl chwarae ond am ychydig fisoedd i dîm pêl-droed Caerffili, ymunodd Bob John, brodor o'r Barri, ag Arsenal. Bu'n chwarae i dîm Y Barri; cafodd ei anwybyddu gan Ddinas Caerdydd cyn ymuno â Chaerffili. Chwaraeodd ef rhwng 1922 a 1936, 421 gêm i Arsenal a phymtheg gêm i Gymru. Chwaraeodd yn Rownd Derfynol Cwpan Lloegr ar y 29ain o Ebrill 1927 i Arsenal yn erbyn Dinas Caerdydd a cholli dwy gôl i un. Yn y gêm hanesyddol honno roedd dau Gymro, un Gwyddel, un Albanwr a saith Sais yn nhîm Arsenal; yn nhîm Caerdydd roedd tri Chymro, pedwar Gwyddel, un Sais a thri Albanwr. Un o'r Cymry yn nhîm Caerdydd oedd brodor o Sblott, Len Davies (1899-1945). Ar gyfer tymor 1932-33 ymunodd â Bangor City fel chwaraewr/rheolwr, ac fel chwaraewr cyffredin am y ddau dymor dilynol. Cyd-chwaraeodd ef â Bob John saith gwaith i Gymru rhwng 1923 a 1929.

Dafydd Islwyn

'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'


Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar ruthcjones25@aol.com (Aelod o Gymdeithas Ysgrifenydd Ewyllysiau)

Beicio i Gaeredin

Daeth cyn-gapten rygbi Cymru, Martin Williams i Gastell Caerdydd i gefnogi lansiad menter beicio “C2Cycling” ar y 25ain o Fai eleni. Cynhaliwyd y lansiad i gyd-fynd ag Wythnos Genedlaethol y Beic sy’n gobeithio ymgyrchu dros achosion da dros gyfnod o ddeg mis.

Codi arian ar gyfer elusen gancr Felindre oedd yr amcan o’r cychwyn. Dechreuodd hyn i gyd yn ystod Mega Day, yr Ŵyl Gerddoriaeth a gynhelir bob Gŵyl y Banc mis Awst. Eleni ychwanegwyd LATCH am y tro cyntaf.



*Castell Caeredin
Llun Mohammed Alhinai*

Yn 2015 reidiodd 6 o’r dynion i Baris, yna’r ail waith yn 2017 a’r drydedd waith yn 2019 gan godi £40,000 tuag at yr elusennau. Y flwyddyn nesaf bydd 27 yn mentro beicio 600km o Gastell Caerdydd i Gastell Caeredin dros gyfnod o bum niwrnod gyda’r nod o godi cymaint o arian a phosib ar gyfer y ddwy elusen hanfodol hyn. Bydd y daith yn cychwyn ar 12fed o Ebrill 2022.

Yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf mae’r tîm wedi seiclo 23,690 km - cyfwerth â reidio i’r Ariannin a nôl – gyda mwy na 180 brecwast i’r timau a dim ond chwe *puncture*!!

Un o’r beicwyr yw Matt Evans ac mae ganddo symbyliad cryf dros gymryd rhan yn y fenter. Oherwydd bu farw Rhys, ei fab bach saith mlwydd oed, y llynedd, a hynny ond bedair

wythnos wedi derbyn diagnosis ei fod yn dioddef o *aplastic anaemia*. Bydd Hywel, naw mlwydd oed, brawd Rhys sydd yn ddisgybl yn Ysgol y Castell, yn rhan o’r fenter. Roedd Matt hefyd yn un o’r criw a seiclododd i Baris.

Dywedodd Matt ei fod yn teimlo bod LATCH wedi bod yno ar eu cyfer drwy gydol y cyfnod trawmatig mwyaf ofnadwy yn hanes eu teulu a’u bod yn dal i’w cefnogi hyd heddiw. Aeth ymlaen i ddweud, mai un peth yw gweld hyn yn digwydd i eraill, ond pan mae’n effeithio arnoch chi’n uniongyrchol, rydych yn sylweddoli pa mor anghredadwy yw’r gwaith mae’r bobol hyn yn ei wneud.

“Bydd seiclo o Gaerdydd i Gaeredin yn her anodd iawn yn gorfforol ac yn feddyliol. Rwy’n siŵr y bydd digon o ddagrau ar y ffordd ond bydd yr holl beth yn werth chweil os gallwn gyrraedd ein targed dros yr elusennau ffantastig hyn.”

Dywedodd Nick Robbins, sy’n trefnu’r daith, eu bod yn galw ar fusnesau yn ogystal ag unigolion ar hyd a lled Cymru i balu’n ddwfn i mewn i’w pocedi i noddi’r tîm. Mae cyfleoedd i gefnogi’r fenter drwy noddi digwyddiad, noddi jersi neu hyd yn oed eich hoff feiciwr. Gellir gwneud hyn drwy lawrlwytho pecyn o’u gwefan lle mae nifer o syniadau ar sut i godi’r arian.

Mae sôn wedi bod hyd yn oed am argraffu bathodyn “Cwmni” ar gryd un o’r beicwyr!!


Y wefan i droi ati yw: c2cycling.co.uk

Marian Rees



Can Mlwyddiant Ethol Morgan Jones

Bu tipyn o sôn am Morgan Jones yn ddiweddar am mai eleni yw canmlwyddiant ethol y Gwrthwynebydd Cydwybodol cyntaf i senedd San Steffan a hynny wedi isetholiad Caerffili yn Awst 1921.



Mae llyfr rhagorol Wayne David yn dechrau gyda'i fagwraeth mewn bwthyn digon cyffredin yng Ngelligaer. Dysgwn amdano'n cael ei godi'n Gristion cydwybodol, yr hyn a arweiniodd at ei ddaliadau cryf dros heddwch a'i labeli'n ddirmygus fel "*Conshi*". Gwelwn rhwng cloriau'r llyfr mor anodd oedd sefyll dros yr egwyddorion hyn yn ystod penboethni rhyfelgar ddechrau'r ganrif o'r blaen. Gwelodd ei gydwladwyr yn mynychu cyfarfodydd a drefnwyd i annog pobol ifanc i ymuno â'r lluoedd arfog: yn gyntaf yn wirfoddol cyn cyflwyno consgripsiwn. Tyrrodd ei gydweithwyr i'r fyddin a dywedir i gymaint â 680 o ddynion o Gwm yr Aber yn unig ymuno â'r lluoedd arfog - ie, y sawl a fu drwy gyflafan ffrwydrad Senghenydd llai na blwyddyn yn gynt. Ond, yn y diwedd, cefnogodd llawer o'r milwyr Morgan Jones yn etholiadau'r 20au.

Dioddefodd yn ofnadwy dan ddwylo'r awdurdodau a'i taflodd i garchar gyda dedfryd o "lafur caled" a chael dim byd ond bara a dŵr am gyfnod yn

Wormwood Scrubs. Dywedwyd celwydd ei fod wedi dianc o gatrwd filwrol er nad oedd erioed wedi hyd yn oed clywed amdani a'i fod, felly, yn enciliwr (*deserter*). Ymladdodd ei achos a dangosodd nad oedd yn llwfr drwy ddweud y byddai'n fodlon aberthu ei fywyd petai ei gydwybod yn caniatáu iddo wneud. Trodd o fod yn *absolutionist* i fod yn *alternativist* h.y. gwneud gwaith dros y rhyfel ond heb ymladd. Dangosai hyn ei fod yn bragmatist ac yn barod i newid ei ddaliadau wrth ddysgu o brofiad. Cafodd hyn oll effaith andwyol ar ei iechyd a chredir i hyn gyfrannu at ei farwolaeth yn 53 oed.

Daeth yn gynghorydd yng Ngelligaer a hyfforddi i fod yn athro ond gwadwyd swydd iddo gan y cyngor sir er, flynyddoedd wedi hynny, etholwyd ef i'r awdurdod hwnnw hefyd. Roedd yn llwrymwrthodwr, yn heddychwyr ac yn bregethwr lleyg enwad y Bedyddwyr. Daliodd nifer o uchel swyddi gan arwain ei blaid ym maes addysg. Dangoswyd y fath barch oedd iddo yn y senedd pan, wedi i Lafur golli etholiad 1931, cafodd gadeiryddiaeth y '*Chartered Public Accounts Committee*' ond siomwyd ef gan fethiant *National Government* Ramsay MacDonald i wneud unrhyw beth am addysg yn ystod y cyfnod hwn.

Symudodd ef a'i deulu i fyw yn Llundain gan y gwelai mai amcan Aelod Seneddol oedd ymladd achos y tlodion a'r difreintiedig drwy newid cyfreithiau a sicrhau cyllideb. Bu ar ei fwyaf ffyrnig yn gwrthwynebu'r *Means Test* ffaidd gan weld y tlodi mawr yn ei etholaeth. Caewyd glofa'r Universal yn 1928 gan roi 2,600 o ddynion ar y clwt a'u gweld nhw yn gorfod wynebu'r "prawf" ofnadwy hyn er mwyn gallu bwydo'u teuluoedd.

Daliodd swyddi uchel oherwydd ei frwdfrydedd dros addysg. Roedd flynyddoedd o flaen ei amser yn ymgyrchu dros godi oed gadael ysgol o 14 i 15; mynnu addysg uwchradd rad i bawb a chyflwyno syniadau ar gyfer yr hyn a adweinir bellach fel ysgolion cyfun.

Roedd yn gydwladwr o argyhoeddiad ond bu'n rhaid iddo gyfaddawdu ar ei heddychiaeth yn yr 1930au wrth weld yr Eidal yn ymosod ar Abyssinia ac wedyn lluoedd yr Almaen yn bomio'r Frigâd Ryngwladol yn Rhyfel Cartref Sbaen. Fel un oedd yn gryf dros ddatganoli i Gymru, yn gryf dros ein hiaith a'n diwylliant, prin y gallai ond cefnogi dymuniad yr India i ddod yn wlad annibynnol. Ni allai gefnogi cynnig Prydain i wahardd rhai a garcharwyd rhag sefyll mewn etholiad yno o gofio ei safiad yntau adeg y Rhyfel Byd Cyntaf.

Dangosodd ei sgiliau diplomataidd gan ennill cryn glod fel aelod blaenllaw o'r *West India Royal Commission* wrth geisio mynd i'r afael â'r tlodi erchyll yn yr ynysoedd hynny. Ailenwyd e gan rai o'r brodorion yn "*Great Morgan*" am ei waith !

Roedd Morgan Jones yn wirioneddol yn arwr dros Gymru, y Gymraeg a'r dosbarth gweithiol. Haedda'i hanes gael ei glodfori a gallwch fod yn rhan drwy sicrhau copi o'r astudiaeth drwyadl a darllenadwy hon gan Wayne David.

Ben Jones

Colofn Dafydd Islwyn



O Fedi 2016 dechreuais gadw Dyddiadur Englyn-Pob-Dydd. Cofnodi englyn oedd naill yn mynegi fy mhrofiad ar y diwrnod neu englyn a roddodd ias i mi. Yr englyn a gofnodais i o'r trydydd o Fedi 2016 oedd un Tomi Price, Dolgellau, "Er cof am fy Mam"! Tynnwyd fy sylw at yr englyn gan Dewi Jones, Benllech, Ynys Môn yn ei golofn fisol yn "Yr Arwydd" - un o bapurau bro Ynys Môn.

Yn fyw iawn yn fy nghof i er y bedd
a thra bwyf y byddi;
Does dim yn gyfan i mi
Yn y byd hebot ti.

Ganwyd ef yn 1921 ym Mhen y Bryn, Cwm Hafod Oer, ger Dolgellau. Englynwr cydnabyddedig arall a anwyd yn 1921 oedd Tom Bowen Jones, Trefor, Caernarfon, Gwynedd. Ef enillodd gystadleuaeth yr englyn yng Ngenedlaethol Y Barri a'r Fro 1968. Y testun "Map".

Yn hwn o hyd chwilio a wnaif – ar fy hynt
am ryw fan a geisiaf;
Ond ynddo chwilio ni wnaif
Yn niwl y siwrnai olaf.

Mae'r englyn hwn wedi ei gerfio ar gefn bedd yn Awstralia, sef bedd morwr o ardal Llanaelhaearn, sy'n agos i Drefor, a fu farw trwy ddamwain.

Rhestraf Ithel Rowlands (1921-2012) yn uchel iawn fel englynwr. Bu wyres iddo ef yn athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Gilfach Fargod. Roedd y cyn-yrwr trê, yn enedigol o Gapel Celyn, Bro Tryweryn, yn un o'r goreuon am weithio englynion i adar. Ei englyn "Y Dryw" yn apelio yn fawr.

Hen go bach y cilfachau, - a phinsiad
Cynffonsyth yn ddiau
Yw'r un gwylaidd brown golau
A'i dŷ i gyd wedi'i gau.

Does dim un flodeugerdd o farddoniaeth Gymraeg yn gyflawn heb waith y tri uchod.

Yng Nghaernarfon y cynhaliwyd y Genedlaethol 1921. Testun yr englyn oedd "Dolef y Gwynt". Yr enillydd oedd Dewi Morgan o Aberystwyth, newyddiadurwr a thad y gwleidydd Elystan Morgan. Enillodd ef dair gwobr arall yn yr eisteddfod hefyd. Canmolwyd esgyll englyn Hywel Cefni, athro barddonol R. Williams Parry, yn y gystadleuaeth englyn i David Lloyd George:

I Brydain byw Waredydd
Dyndod oes enaid y dydd.

Nid am yr englynion a cherddi eraill y glynodd y Genedlaethol, Caernarfon, 1921, yng nghof y werin. Cadeiriwyd awdl delynegol. Coronwyd pryddest a gofir tra bydd trafodaethau ar bryddestau'r Genedlaethol. Hon oedd yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf yn yr ugeinfed ganrif lle gwobrwyd awdl a phryddest y ceir blas ar eu darllen.

Roedd testun yr awdl yn agored fel yn y Genedlaethol yng Nghaernarfon yn 1906. Yr amod oedd nad oedd yr awdl i fod ar destun oedd wedi cael ei osod o'r blaen yn y Genedlaethol. Ers 1921 mae testun wedi bod yn agored bum gwaith. Y tro diwethaf yn Llanelli 2000. Awdl odidog R. J. Rowlands, Lerpwl ar y pryd, a enillodd y Gadair. Ym mhen ychydig wythnosau yr oedd yn ôl yng Nghaernarfon yn dilyn ei waith fel newyddiadurwr.

Ei enw barddol oedd Meuryn (1880-1967) a ddaeth yn adnabyddus ym myd llên fel olynydd Dewi Emrys yn olygydd colofn farddol Y Cymro. Fe'i cofir heddiw fel beirniad Ymryson y Beirdd o'i sefydlu yn 1937 hyd ddechrau'r 1960au. Does fawr neb bellach yn cofio ei gyfraniad i faes storïau antur i blant. Canmolodd un o feirniaid yr awdl, y Parchedig J. J. Williams, a fu yn weinidog yn Rhymni o 1897 hyd 1903, yr englyn i Fachlud Haul:

Hwyrli araul lwerydd – hudai fryd
Un fro wemp a dedwydd;
Cartref heulwen ysblennydd
A dania'r don hwyr y dydd.

Wrth fesur a phwyso'r Genedlaethol 1921 y bryddest fuddugol a ddaw i'r drafodaeth gyntaf. Cafodd y beirdd bedwar testun i'w dewis ar gyfer pryddest heb fod dros wyth can llinell. O'r ugain o gystadleuwyr, canodd wyth ar y testun "Mab y Bwthyn". Ymysg y tri beirniad oedd Crwys a fu'n weinidog ym Mrynmawr o 1898 tan 1915. Roedd y tri beirniad yn gytûn mai pryddest Pentewyn oedd yn llwyr haeddu'r Goron. Ar y darlleniad cyntaf, nododd Crwys ac un o'i gyd-feirniaid, Anthopos, mai pryddest ryfedd oedd un Pentewyn. Buan y sylweddolodd y beirniaid ei bod yn bryddest hynod o newydd a dieithr ar y testun "Mab y Bwthyn". Pryddest ydyw am fab y bwthyn yn cael ei alw i'r rhyfel 1914 - 1918.

Fel milwr, collodd olwg ar ei hen fywyd syml a gwelodd bethau a'i caledodd yn y ffosydd. Ynddynt gwelodd erchyllterau rhyfel yn eu noethder.

Cynan, cyn-filwr a gweinidog yr efengyl gyda'r Presbyteriaid ym Mhenmaenmawr ers rhyw flwyddyn oedd y bardd buddugol. Roedd yn chwech ar hugain oed ar y pryd. Coronwyd prydddest ddarllenadwy a dealladwy. Cynan oedd Archdderwydd y Genedlaethol yng Nghaerffili yn 1950. Ef ddilynodd Trefin (1889-1962) fel Archdderwydd yn 1963 i fod yr unig un sydd wedi dal y swydd ddwywaith. Bu ef farw yn Ionawr 1970.

Sawt mair ardd yn edrych?

Gardd Mehefin



Mae'r bresych bron i gyd wedi eu bwyta nawr, ac wedi bod yn llwyddiant hefyd, er mor hen oedd yr hadau. Roedd lliw tywyll iawn arnynt wedi eu coginio, ond blas hyfryd. Fe welwch botyn o flodau melyn wrth y cwpl planhigion sy'n dal yn yr ardd: rwy wedi darllen bod gwynt cryf gold Mair yn cadw pryfed draw. Hyd yn hyn mae'r arbrawf yn llwyddiant!

Mae'r pys pêr yn dechrau dringo'n iawn o'r diwedd, ond ara deg yw tyfiant popeth eleni. Y tywydd cyfnewidiol ac eithafol gafodd y bai

gen i fis diwethaf, ond nawr rwy'n dechrau amau hynny. Efallai bod bai ar y arddwreg yn fwy na'r tywydd. Mae'r hen gamera'n dangos chwyn na welais i o'r blaen!

Ond o leiaf mae'r ffa yn edrych yn gryf ac yn iachus erbyn hyn. Daeth yr hadau hynny hefyd o hen becyn oedd yn perthyn i'r degawd diwethaf, fel hadau'r bresych. Does dim sôn am bryfed arnynt nhw chwaith. Efallai y dylwn gadw pob math o hadau am ddeng mlynedd cyn eu plannu?

Er bod y ffa eu hun yn llawer rhy fach i'w bwyta eto, fe fyddaf yn torri blaenau'r planhigion cyn bo hir nawr – yn rhannol er mwyn osgoi problemau gyda'r clêr bach du sy mor hoff o wneud eu cartrefi ym mhlygion y dail ifanc. Ond mae rheswm arall gen i dros dorri'r dail: maen nhw'n dda iawn i'w bwyta, wedi eu coginio fel bresych. Mae blas



hyfryd y ffa eu hun arnynt. Fe ddylent lenwi'r bwlch ar ôl i fi orffen y bresych i gyd!

Rwy wedi oedi hefyd cyn plannu allan y cennin a'r betys fu gen i am fis neu ragor, ond y tywydd sydd yn bendant yn gyfrifol am hynny, nid diogi ar fy rhan i y tro hwn. Maen nhw yn y pridd nawr ers pythefnos, ond dim ond ers i ni gael diferyn deche o law maen nhw'n tyfu gydag arddeliad.

Felly gobeithiwn am y cyfuniad perffaith hwnnw o law a hindda sy'n sicrhau tyfiant. Ond dyna drueni bod popeth yn



tyfu wedyn: chwyn a llysiau! Bant â fi i chwynnu nawr 'ta: rwy wedi llwyddo i godi cywilydd arna fi fy hun!

Cyfarchion i bawb sy'n darllen! Fis diwethaf, darllenon ni gerdd gan J Glyn Davies ac fe ddwedais i ei fod e'n ddyn diddorol. Dyma dipyn bach o'i hanes :

Cafodd ei eni (*he was born*) yn Lerpwl yn 1870 ond roedd e'n treulio (*spend*) llawer o amser gyda Nain a Taid yn Llŷn ac roedd e'n meddwl am yr ardal yma fel ei gartref.

Teithiodd J Glyn Davies lawer ar y môr pan oedd yn gweithio i gwmni o Lerpwl ac mae llawer o'i gerddi am forio (*sailing the seas*). Mae llawer o'r cerddi yn ganeuon (*songs*) neu yn siantis môr.

Ond roedd J Glyn Davies yn berson academig hefyd. Aeth e'n llyfrgellydd (*a librarian*) ac wedyn yn bennaeth adran Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Lerpwl (*head of the Celtic Studies department at the University of Liverpool*).

Rydyn ni'n meddwl amdano fel awdur (*author*) cerddi i blant, fel Fflat Huw Puw, ond ysgrifennodd e gerddi eraill hefyd. Y gerdd isod (*below*) yw fy hoff gerdd gan J Glyn Davies. Mae e ar fwrdd llong yn harbwr San Francisco ac yn gweld y lleuad (*the moon*) yn yr awyr. Mae gweld y lleuad yn gwneud iddo deimlo hiraeth am Gymru a'r bobl sy'n byw yno ond mae gwybod bydd pobl Cymru yn gweld yr un (*the same*) lleuad cyn bo hir (*before long*) yn gysur (*a comfort*). Mae e'n clywed sŵn y ddinas brysur ond yn meddwl am heddwch (*peace*) Llŷn.

Ar ôl i chi ddarllen y gerdd, mae gyda fi ddau gwestiwn i chi :

1. Pam fod y lleuad 'fel hen Gymraes'? .
2. Pam fod y bardd yn teimlo ar ddiwedd y gerdd bod y lleuad yn lwcus, yn fwy lwcus na'r bardd?

Yn Harbwr San Francisco

1. Hen leuad wen uwchben y byd,
a ddoist ti o hyd i Gymro
a aeth yn bell o'i wlad ei hun,
o Llŷn i San Francisco.

Mor dda dy gwmni hyd y môr,
ac wrth ein hangor heno,
fel hen Gymraes uwchben y dŵr,
yn harbwr San Francisco.

3. Yfory byddi uwchben Llŷn
yn gweld pob un a'm caro,
a gweld y tai mewn gwlad sydd well,
yn bell o San Francisco.
Cei fynd yn dawel ar dy hynt ,
ni all dim gwynt dy rwystro,
ond stormydd geirwon sydd o mlaen
i Bortinllaen o Frisco.

2. Mae sŵn y strydoedd ar y clyw ,
a'r dref yn fyw ac effro
a sŵn rhialtwch mawr y lan
Dros harbwr San Francisco.
Ond tawel iawn yw glennydd Llŷn;
ar ben fy hun rwy'n gwranddo
am stwyrian pell 'r hen olwyn ddŵr,
O harbwr San Francisco.

angor : anchor effro : awake
sŵn rhialtwch : the sound of merriment
glennydd : valleys stwyrian : movement
olwyn ddŵr : water wheel
pob un a'm caro : everyone who loves me
ar dy hynt : on your way rhwystro : prevent
stormydd geirwon : rough storms

Merched Y Wawr ym Mharc Cefn Onn



Ymhlith gweithgareddau ddiwedd tymor yr haf trefnwyd taith hamddenol i aelodau a ffrindiau Merched y Wawr Cwm Rhymni i Barc Cefn Onn ar gyffiniau Caerdydd. Dyma'r ail dro eleni i griw ohonom gymryd mantais o'r cyfle i gyfarfod wyneb yn wyneb yn hytrach na chyfathrebu o flaen sgrin ar Zoom.



Ar fore bendigedig ganol mis Mehefin daethom ynghyd wrth y fynedfa (gan gadw rheolau pellter mewn cof), ac yna cawsom gyfle i grwydro o gwmpas y llwybrau coediog gan werthfawrogi gogoniant natur, lliwiau hyfryd yr asaleas a'r rhododendrons, ac i rannu profiadau a newyddion y misoedd coll. Hyfryd oedd llochesu rhag pelydrau'r haul crasboeth wrth gerdded yn hamddenol trwy'r coed.

Mae'n debyg i Gyngor Caerdydd brynu'r safle oddi wrth Donald Prosser yn 1944 am £7,500 a dechreuwyd ar y plannu yn 1953 pan ddatblygwyd y parc fel Ardal Gadwriaethol o bwys oherwydd y planhigion egsotig a'r cynefin amrywiol i ddenu

bywyd gwyllt. Gyda phoblogrwydd y parc sefydlwyd arhosfa 'Cefn Onn' ac yn ddiweddarach gorsaf rheilffordd newydd gyfagos a adnabyddir fel Llysfaen/Thornhill.

Wedi troedio'r llwybrau a chloncian, cawsom bicnic pleserus a chwmni gwiwer fach lwyd yn chwilio am fwyd, ambell i gi yn dilyn ei drwyn, a sawl gwas y neidr yn hofran uwchben. I ddilyn y gwledda rhaid oedd cael lluniau fel tystiolaeth o'r daith, ac i'w rhannu gyda'r aelodau prysur eraill.

Wrth nesáu at ddiwedd y daith a cherdded lincyn-loncyn i gyfeiriad bwrlwm y ddinas, roedd pawb wedi mwynhau'r ychydig oriau pleserus yn ymlacio a chyfathrebu, ac yn edrych ymlaen at y daith haf nesaf.

Mae ein diolch i Gaynor Williams unwaith eto am drefnu popeth ac am ein hatgoffa o'n taith nesaf i Barc Cwm Darran, pryd y byddwn yn cael ein tywys gan Kerry Gayley ar 21ain Gorffennaf am 11 o'r gloch y bore.

Ann Walker

PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Dosbarthu a Golygydd Llundiau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

Hysbysebu: Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith **Gweplyfr/ Facebook:**  Papur Bro Cwmni

Gwefan: Menter IaithSir Caerffili.cymru/ **Cwmni** 

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru benamarycwmni@yahoo.com

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*